Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BMA Cymru Wales

GIG CYMRU NHS WALES

Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru)
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol
Penaethiaid Gofal Sylfaenol
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref: qA1263705

3 Ebrill 2023

**RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CONTRACTAU GWASANAETHAU MEDDYGOL CYFFREDINOL) (CYMRU) 2023**

Rydyn yn ysgrifennu i roi gwybod ichi am newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol rhwng contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) a Byrddau Iechyd Lleol.

Bydd hyn yn arwain at ddirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004, a'u disodli gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023"). Bydd Rheoliadau 2023 yn pennu'r fframwaith ar gyfer contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, Rhan 4: Gwasanaethau Meddygol. Disgwylir i Reoliadau 2023 ddod i rym ar 1 Hydref 2023.

Yn ogystal â Rheoliadau 2023 sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer datblygiadau polisi a chyfeiriadau statudol wedi'u diweddaru, y polisi sylfaenol yw Diwygio Contractau sy'n creu Contract Unedig newydd ar gyfer pob Practis Meddyg Teulu.

Mae'r papur yn Atodiad A yn amlinellu cefndir y Contract Unedig ac yn nodi'r prif ddarpariaethau y bwriedir eu cynnwys yn Rheoliadau 2023.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn • Tel 03000255684
Claire.cullen@gov.wales
Gwefan • website:
www.llyw.cymru
www.gov.wales

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

LEGAL\60623263v1

Mae croeso i'ch sylwadau ynghylch cynnwys Rheoliadau arfaethedig 2023. Gallwch anfon unrhyw sylwadau a allai fod gennych drwy e-bost i [GMCContract@llyw.cymru](mailto:GMCContract@llyw.cymru) erbyn 30 Ebrill 2023.



**Paul Casey**

Dirprwy Gyfarwyddwr
Llywodraeth Cymru



**Gareth Oelmann**

Cadeirydd
GPC Cymru



**Lisa Dunsford**

Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyflawni
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Atodiad A**

## RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CONTRACTAU GWASANAETHAU MEDDYGOL CYFFREDINOL) (CYMRU) 2023

### Y cefndir

1. Un o'r prif alluogwyr a nodir yn *Cymru Iachach* yw diwygio pob contract gofal sylfaenol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg) fel bod modd darparu gofal a chefnogaeth leol yn ddi-dor. Mae'r Grŵp Cysondeb Diwygio Gofal Sylfaenol (Contractau), a sefydlwyd yn 2020, yn ymgysylltu â GIG Cymru a chyrff contractwyr, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill, ac yn parhau i ddarparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y rhaglen gyffredinol.

2. Mae'r Grŵp yn sicrhau cysondeb mewn contractau priodol drwy'r blaenoriaethau cyffredin y cytunwyd arnynt, gan gynnwys gwella mynediad at wasanaethau ac ohonynt; gweithio ar raddfa/gweithio mwn clystyrau i gynllunio a darparu gwasanaethau; canolbwyntio ar ansawdd ac atal, a chryfhau'r gweithlu.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal a gwella'r broses o gyflenwi Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ("GMC") yn effeithiol, gan ddefnyddio profiad y blynyddoedd diwethaf i sicrhau darpariaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion, a'i chyflenwi yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

4. Bydd Rheoliadau'r GIG (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn nodi'r fframwaith ar gyfer contractau GMC o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, Rhan 4: Gwasanaethau Meddygol. Bydd y contractwr GMC yn cynnal contract GMC Unedig cyffredin ("Contract Unedig") gyda Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion, a bydd modd iddynt allu dangos lefelau uchel o safonau a gofal ansawdd yn erbyn y contract yn hawdd. Contractau rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Contractwr GMC yw'r rhain.

5. Mae'r Contract Unedig wedi'i negodi dros gyfnod o 18 mis fel rhan o ddull teirochrog gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a'r Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) ("GPC(W)"). Cafodd y gwaith ei wneud drwy grwpiau gorchwyl a gorffen, heb ymrwymiad na rhagfarn a chyda chylch gorchwyl ac amcanion clir. Cafodd darpariaethau eraill yn Rheoliadau 2023 sy'n adlewyrchu datblygiadau polisi eu trafod â GIG Cymru a GPC(W) fel rhan o'r cylch o drafodaethau blynyddol am newidiadau i'w gwneud yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

6. Nod y Contract Unedig newydd yw ailddiffinio'r cynnig GMC craidd, gan fireinio a symleiddio'r model contractau, cadw mewn cof yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig a chaniatáu i GMC ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny y gall GMC a phractisau unigol eu gwneud, ac a ddylai gael eu gwneud ganddynt hwy yn unig.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn • Tel 03000255684
Claire.cullen@gov.wales
Gwefan • website:
www.llyw.cymru
www.gov.wales

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

7. Mae'r Contract Unedig yn cydgrynhoi gwasanaethau hanfodol, gwasanaethau ychwanegol, y gwasanaeth Diabetes estynedig, ac elfennau o'r Fframwaith Ansawdd a Gwella a ystyrir yn wasanaethau GMC craidd.


8. Bydd y Contract Unedig yn cynnwys cwmpas ehangach ar gyfer gwasanaethau craidd i'r claf.

**Cyflwyniad i'r Contract Unedig**

9. Nod y Contract Unedig yw symleiddio pa wasanaethau y gall practisau meddygon teulu yng Nghymru eu darparu - gweler Atodiad B a sut y dangosir tystiolaeth o sicrwydd ynghylch cyflenwi gwasanaethau. Mae'r Contract Unedig yn golygu bod y maes ymarfer cyffredinol yn cael ei gysoni â modelau gwasanaeth sy'n datblygu ar gyfer darparu gofal, yn seiliedig ar ethos gofal iechyd darbodus. Ei nod yw ei gwneud yn haws i gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddeall y cyfrifoldebau dros ddarparu gwasanaethau, lleihau biwrocratiaeth weinyddol, rhyddhau amser ac adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau, a galluogi defnyddio data a thechnoleg i helpu i gynllunio adnoddau a darparu gwasanaethau.

10. Nid yw hawl pob dinesydd i gael mynediad at wasanaethau meddygol sylfaenol, a'r ffordd y mae claf yn cofrestru â phractis i gael mynediad at wasanaethau yn cael eu newid o dan y Contract Unedig. Bydd practisau meddygon teulu yn parhau i fod yn gyfrifol am ddefnyddio'r cyllid a ddarperir drwy'r contract i drefnu'r adnoddau staffio sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r contract.

11. Bydd y Contract Unedig yn cynnwys tair rhan: Gwasanaethau Unedig, Gwella Ansawdd, a Gwasanaethau Atodol. Nid yw Gwella Ansawdd a Gwasanaethau Atodol yn rhan o Reoliadau 2023 gan eu bod yn ddewisol ar gyfer meddygfeydd (gweler isod am ragor o fanylion).



Gwasanaethau Unedig

12. Gwasanaethau Unedig yw'r gwasanaethau allweddol y mae'n rhaid i bob practis meddyg teulu eu darparu. Nodir yn fanwl isod beth yw'r gwasanaethau hyn a sut y byddant yn cael eu hadlewyrchu yn Rheoliadau 2023.

Gwasanaethau Atodol

13. Gwasanaethau atodol yw gwasanaethau y mae angen iddynt gael eu goruchwylio neu eu darparu gan feddygon teulu, ond nad oes angen i bob practis eu darparu. Fel rhan o'r Contract Unedig, bydd Byrddau Iechyd yn cael Cyfarwyddyd i ddarparu rhai gwasanaethau, a bydd Byrddau Iechyd yn cadw'r gallu i gomisiynu Gwasanaethau Atodol Lleol yn unol ag anghenion y boblogaeth leol. Enghreifftiau o wasanaethau atodol yw darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal a darparu gwrthgeulyddion gyda warfarin drwy'r geg i gleifion.

Ansawdd a Gwella

14. Bydd y Contract Unedig hefyd yn golygu diwygio ein Fframwaith Gwella Ansawdd a Sicrwydd presennol i ganolbwyntio ar wella ansawdd er mwyn gwella canlyniadau gwell i gleifion. Bydd y Fframwaith Gwella Ansawdd yn cynnwys meysydd Mynediad a Sicrhau Ansawdd. Bydd cyfres o brosiectau Sicrhau Ansawdd yn parhau i gael eu datblygu i adlewyrchu meysydd clinigol lle gallai cylch Sicrhau Ansawdd practis sicrhau gwelliannau yng ngofal cleifion. Bydd yn wirfoddol i bractisau gymryd rhan yn y Fframwaith Rheoli Ansawdd, gyda chyfanswm o 270 o bwyntiau ar gael os cyflawnir ar draws y ddau faes.

**Gwasanaethau Unedig yng Nghontract GMC 2022-23**

15. Gwasanaethau Unedig fydd yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r contract a dyma'r gwasanaethau allweddol y mae'n rhaid i bob practis meddyg teulu eu darparu. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn Rheoliadau 2023. Wrth symleiddio'r contract, mae'r holl wasanaethau o dan gontract GMC 2004 a gafodd eu hystyried fel Gwasanaethau Ychwanegol neu Wasanaethau Estynedig dan Gyfarwyddyd (DES) wedi'u hystyried yn erbyn yr hyn y gellir disgwyl i bob practis meddyg teulu ei ddarparu. Mae'r holl Wasanaethau Estynedig wedi'u hadolygu gan roi'r ffocws cychwynnol ar 'yr hyn y gellir disgwyl i bob meddyg teulu ei wneud' a'r hyn sy'n fwy arbenigol. Mae'r prawf allweddol hwn wedi ein galluogi i gydgrynhoi a symleiddio'r contract.

Gwasanaethau Ychwanegol

16. O dan y trefniadau presennol, mae 7 gwasanaeth ychwanegol –

- sgrinio serfigol;
- gwasanaethau atal cenhedlu;
- brechu ac imiwneiddio
- brechu ac imiwneiddio plant
- gwyliadwriaeth iechyd plant;
- gwasanaethau meddygol mamolaeth;

- mân lawdriniaethau ciwretio, serio, cryoserio dafadennau, ferwcau a namau eraill ar y croen.

17. Ar hyn o bryd mae Contractwyr GMC yn gallu dewis peidio â darparu gwasanaethau ychwanegol i gleifion, sy'n arwain at ddidynnu canran o'u Swm Craidd. Y Swm Craidd yw'r prif ffynhonnell cyllid i Gontractwyr GMC ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion.

18. Bydd symud y Gwasanaethau Ychwanegol hyn i Wasanaethau Unedig yn sicrhau y bydd pob person yng Nghymru yn cael y gwasanaethau hyn ar sail gyfartal.

<u>Gwasanaethau Estynedig dan Gyfarwyddyd</u>

19. Bydd y modiwl porth Gwasanaeth Estynedig dan Gyfarwyddyd presennol ar gyfer Diabetes y mae Byrddau Iechyd Lleol yn ei gomisiynu gan gontractwyr GMC yn symud i Wasanaethau Unedig gan sicrhau bod pob claf diabetig sydd â chlefyd Math 2 yn derbyn gofal i reoli a monitro ei gyflwr gan gontractwyr GMC.

<u>Dangosyddion Clinigol</u>

20. Bydd y dangosyddion clinigol a oedd yn rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella, a oedd yn wirfoddol i gontractwyr GMC gymryd rhan ynddo, hefyd yn symud i'r Gwasanaethau Unedig. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i bob contractwr GMC yn awr gymryd rhan yn y dangosyddion clinigol hyn sy'n rheoli rhai o'r cyflyrau cronig mwyaf cyffredin, er enghraifft asthma a diabetes i gleifion sydd â'r cyflyrau hynny.

<u>Y Maes Clwstwr</u>

21. Rhan arall o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella a fydd yn trosglwyddo i Wasanaethau Unedig yw'r dangosyddion maes clwstwr. Bydd hyn yn gwreiddio'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran datblygu clystyrau, ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygiadau pellach. Bydd practisau meddygon teulu yn dangos eu bod yn cymryd rhan mewn cydweithfeydd proffesiynol drwy rannu gwybodaeth a chymryd rhan yn nhrafodaethau cydweithfeydd i gefnogi datblygu a chyflwyno atebion lleol. Bydd hyn yn galluogi gwell gofal i gleifion a systemau gwell i helpu'r gweithlu i ymateb i'r angen a darparu gofal yn fwyaf effeithiol. Bydd Rheoliadau 2023 yn nodi hefyd bod yn rhaid i gontractwr GMC fod yn aelod o Gydweithfa Meddygon Teulu a phenodi o leiaf un unigolyn sy'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol i weithredu ar ran y contractwr yn y trafodaethau rhwng y contractwr a'r Gydweithfa Meddygon Teulu y mae'r contractwr yn perthyn iddo.

<u>Mynediad</u>

22. Roedd elfen o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella o 1 Ebrill 2022 hefyd yn cynnwys yr Ymrwymiad Mynediad i ddangos yn gliriach i'r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl gan bractisau meddygon teulu o ran mynediad. Bydd y rhan hon o'r Fframwaith, h.y. safonau Mynediad Cam 1, yn symud i'r Gwasanaethau Unedig i ffurfioli'r disgwyliadau a'r gofynion o ran mynediad, ynghyd â thargedau a mesurau

cadarn. Mae'r Ymrwymiad Mynediad yn nodi’r gofynion canlynol ar gyfer contractwyr GMC–

- Bod ganddynt system ffôn sydd â swyddogaeth recordio ar gyfer galwadau i mewn ac allan, sy’n gallu stacio galwadau ac sy’n caniatáu dadansoddi data galwadau.
- Bod ganddynt neges gyflwyno ar y ffôn sydd wedi'i recordio'n ddwyieithog ac nad yw'n para mwy na 2 funud.
- Sicrhau bod cleifion a chartrefi gofal yn gallu archebu presgripsiynau rheolaidd drwy ddull digidol.
- O fewn oriau craidd, sicrhau bod dull digidol ar waith i gleifion ofyn am apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys, eu bod rhywun yn eu ffonio’n ôl, a bod y trefniadau llywodraethiant angenrheidiol ar waith ar gyfer y broses hon.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ynghylch sut y gall cleifion ofyn am ymgynghoriad brys, arferol ac uwch, yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth i gleifion ynghylch sut i ofyn am ymgynghoriad drwy daflen y practis a gwefan y practis.
- Dangos gwybodaeth am y Safonau Mynediad.
- Cynnig ymgynghoriad yr un diwrnod i blant dan 16 oed sydd â symptomau acíwt a chleifion sy’n cael eu brysbennu'n glinigol fel rhai y mae arnynt angen asesiad brys.
- Cynnig apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw.
- Mynd ati’n weithredol i gyfeirio cleifion at wasanaethau cydweithredol eraill, gwasanaethau ar draws y bwrdd iechyd a gwasanaethau cenedlaethol lle bo’r rhain ar gael.

23. Yn ogystal, er mwyn gwella mynediad i gleifion ymhellach, rhaid i gontractwyr GMC:

- Ateb eu ffonau drwy gydol yr oriau craidd h.y. 8.00am i 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener oni bai bod cytundeb blaenorol wedi'i roi gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddefnyddio neges peiriant ateb mewn amgylchiadau eithriadol;

- Sicrhau bod drysau prif safle’r practis ar agor fel y gall cleifion gael mynediad i'r safle yn gorfforol rhwng 8.30am a 6.00pm; bydd hyn hefyd yn atal cau am hanner diwrnod gan leiafrif o bractisau.

**Fframwaith Sicrwydd**

24. Bydd mesurau sicrwydd contract cryfach a chyfannol, a rheoli a monitro perfformiad drwy Fframwaith Sicrwydd newydd. Un o brif nodau'r Fframwaith Sicrwydd yw lleihau biwrocratiaeth drwy system o wiriadau sy'n gadarn ac yn gymesur.

25. Drwy waith sydd eisoes wedi'i wneud drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Sicrwydd Contract, cytunwyd ar set o egwyddorion sicrwydd a fydd yn sail i'r dull gweithredu yn y dyfodol:

- Y broses yn agored a thryloyw

- Gweithredu'n gymesur ac nid yn fiwrocrataidd
- Gwneud defnydd o ffynonellau data presennol
- Dadansoddi data ar lefel genedlaethol a'u darparu i bractisau a Byrddau Iechyd
- Defnyddio safonau a mesurau cenedlaethol
- Eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru
- Dylai prosesau fod yn ffurfiannol a chefnogol lle bo modd
- Darperir dull o gamau graddol a chlir tuag at uwchgyfeirio os oes pryderon

26. Bydd cyfres o ddangosyddion allweddol yn cael eu datblygu a bydd y rhain yn cael eu cymhwyso ym mhob rhan o GIG Cymru, gan gryfhau'r systemau presennol a sefydlu dull gweithredu cyson o ran materion sicrwydd yn y Contract Unedig. Bydd defnydd gwell o ddata presennol o ystod eang o ffynonellau yn golygu bod modd asesu perfformiad practisau mewn ffordd agored a thryloyw.

27. Er mwyn sicrhau bod prosesau sicrwydd yn gymesur a hefyd yn ffurfiannol, bydd y Byrddau Iechyd yn blaenoriaethu pa gontractwyr fydd yn cael adolygiad llywodraethiant ac yn ystyried pa mor ddwys y mae'r angen i'r adolygu fod er mwyn cael sicrwydd. Sefydlir proses uwchgyfeirio y cytunir arni'n genedlaethol ar gyfer rheoli pryderon.

## Iechyd y Cyhoedd

28. Bydd Rheoliadau 2023 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer set ddata ofynnol genedlaethol "holiadur cleifion newydd" a fydd yn cael ei ddefnyddio gan bob practis ac yn cael ei gynnig i gleifion sy'n cofrestru â'r practis. Bydd yr holiadur set ddata ofynnol yn sicrhau bod cleifion 16 oed neu hŷn yn cael eu sgrinio:

- os ydynt yn yfed alcohol ar lefel o risg uwch neu gynyddol
- os ydynt yn defnyddio cynhyrchion tybaco
- os yw eu BMI yn uchel

29. Bydd practisau yn parhau â'u dulliau presennol o gyfeirio cleifion a nodir fel rhai sy'n wynebu risg at gymorth perthnasol lle mae ar gael.

30. Bydd cyflwyno'r set ddata ofynnol genedlaethol “holiadur cleifion newydd” ar gyfer pob claf newydd yn sicrhau cysondeb o ran casglu gwybodaeth sgrinio iechyd bwysig.

## Rhagnodi Electronig

31. Bydd Rheoliadau 2023 hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwasanaeth digidol ynghylch rhoi a derbyn presgripsiynau. Ar hyn o bryd, mae meddygon teulu a chlinigwyr gofal sylfaenol eraill yn creu presgripsiynau drwy ddulliau electronig ond rhaid iddynt argraffu a llofnodi copïau caled sy'n cael eu cludo i fferyllfa i'w cyflenwi. Mae'r copïau papur o bresgripsiynau yn cael eu harchifo er mwyn i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru adrodd arnynt. Bydd y rhaglen yn cwblhau'r gwaith o ddigideiddio'r broses hon fel bod presgripsiynau papur a llofnodion 'gwlyb' yn cael eu disodli gan bresgripsiynau electronig a llofnodion electronig. Bydd presgripsiynau'n

cael eu hanfon yn electronig yn uniongyrchol oddi wrth y rhagnodydd sy'n eu hawdurdodi i'r fferyllfa i'w cyflenwi.

**Rheoliadau 2023**

32. Yn yr un modd â Rheoliadau 2004, mae Rheoliadau 2023 yn sefydlu cydrannau'r Contract GMC sy'n cynnwys:

- Yr amodau y mae'n rhaid i gontractwyr GMC (meddyg teulu) eu bodloni cyn y bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo i gontract â nhw;
- Telerau'n ymwneud â hyd contract a'r gwasanaethau meddygol cyffredinol sydd i'w darparu;
- Datrys anghydfod;
- Rhagnodi a chyflenwi meddyginiaethau;
- Amrywio, terfynu a chanslo contractau;
- Yr amodau i'w bodloni gan y rhai sy'n cyflawni gwasanaethau neu sy'n cael eu cyflogi neu eu cymryd ymlaen gan y contractwr;
- Cofrestru a thynnu cleifion, cau rhestrau ac aseiniadau;
- Cofnodion cleifion, darparu gwybodaeth a hawliau mynediad;
- Cwynion

**Casgliadau**

33. I grynhoi, Gwasanaethau Unedig yw'r gwasanaethau craidd y mae pob contractwr meddyg teulu yn gyfrifol am eu darparu i bob claf sydd wedi cofrestru â'r practis:

34. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- rheoli cleifion sy'n sâl neu'n credu eu bod yn sâl, gyda chyflyrau y disgwylir iddynt wella ohonynt yn gyffredinol, drwy gydol y cyflwr hwnnw, gan gynnwys cyngor hybu iechyd perthnasol ac atgyfeirio fel y bo'n briodol, gan adlewyrchu dewis y claf lle bynnag y bo'n ymarferol;
- rheoli cyffredinol ar gyfer cleifion sy'n derfynol wael;
- rheoli clefydau cronig yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arferion gorau cydnabyddedig, gan drafod â'r claf;
- sgrinio serfigol;
- gwasanaethau atal cenhedlu;
- brechu ac imiwneiddio (sy'n rhan o Wasanaethau Hanfodol neu Ychwanegol ar hyn o bryd);
- gwyliadwriaeth iechyd plant;
- gwasanaethau mamolaeth - ac eithrio gofal intrapartwm
- mân lawdriniaethau ciwretio, serio, cryoserio dafadennau a ferwcau lle bo hynny'n briodol yn glinigol.

35. Mae rheoli clefydau cronig yn cynnwys y gofal sylfaenol i gleifion ar gyfer cyflyrau cronig, a ddarperir gan ddefnyddio barn glinigol gan ymgynghori â'r claf, yn unol â

chanllawiau proffesiynol cenedlaethol, gan ddefnyddio llwybrau gofal cenedlaethol neu leol lle maent ar gael.

36. Y  nod wrth gyflwyno’r Contract Unedig newydd yw mireinio a symleiddio trefniadau'r contract presennol ac ailddiffinio'r cynnig craidd y dylai pob practis ei ddarparu. Mae ffocws clir wedi'i roi ar farn glinigol ac ar gael gwared ar rwystrau diangen rhag darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn parhau i fod wrth wraidd y ffordd y mae gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael eu darparu.

37. Mae croeso i'ch sylwadau ar Reoliadau arfaethedig 2023, y mae eu prif bwyntiau wedi’u crynhoi yn y papur hwn. Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau drwy e-bost i GMCContract@llyw.cymru erbyn 30 Ebrill 2023.

38. Os bydd arnoch angen unrhyw wybodaeth bellach i’ch helpu i gyflwyno sylwadau, gallwch ofyn am yr wybodaeth honno hefyd drwy’r cyfeiriad e-bost GMCContract@llyw.cymru

**Annex B**

## Contract Unedig Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

| **Gwasanaethau Unedig** | **Gwasanaethau Atodol** |
|---|---|
| Gwasanaethau hanfodol contract 2004 | DES Warfarin |
| Gwasanaethau ychwanegol contract 2004<br>Sgrinio serfigol<br><br>Gwasanaethau Meddygol Mamolaeth<br>Gwasanaethau Atal Cenhedlu<br>Gwyliadwriaeth Iechyd Plant<br>Mân Lawdriniaethau – ciwretio a serio dafadennau, ferwcau a namau eraill ar y croen (lle bo hynny’n briodol yn glinigol)<br><br>Brechu ac imiwneiddio plant<br>Brechu ac imiwneiddio | DES mân lawdriniaethau – Chwistrelliadau<br>DES mân lawdriniaethau – Mân lawdriniaethau’r croen |
| DES modiwl porth Diabetes 2017 | DES estyn oriau agor meddygfeydd |
| | Brechu ac Imiwneiddio:<br>• DES Imiwneiddio Plant<br>• Cynllun imiwneiddio rhag y ffliw a chlefydau niwmococol<br>• DES Imiwneiddiad pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol<br>(yn amodol ar adolygu polisi cyflenwi V&I) |
| | NES Monitro Cyffuriau Gofal a Rennir |
| | DES Anabledd Dysgu (yn amodol ar eglurder ynghylch gofynion gwasanaeth ar lefel cydweithfa/clwstwr a dyddiad i’w gadarnhau) |
| | NES dyfeisiau IUCD |
| | DES Cartrefi Gofal |
| | **Nodir y gwasanaethau canlynol i’w cyflenwi drwy ACD; byddant yn parhau i gael eu darparu fel gwasanaethau atodol hyd nes y datblygir trefniadau newydd.** |
| | |
| | DES Gwasanaethau i Gleifion Treisgar |
| | DES Hunaniaeth Rhywedd |
| | DES Pobl Ddigartref |
| | DES Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid |

**Annex B**